

Diolch

Carwn ddiolch o galon i chi am eich holl haelioni i Ann a finne ar fy ymddeoliad. Rydych wedi bod yn eithriadol o hael. "Dim ond diolch yw fy lle" yn wir! Diolch i chi am bob cefnogaeth a'ch dymuniadau da.

Aneurin

Cofion

Parhawn i gofio am y cleifion yn ein plith – Elsie May Edwards (Eglwys Unedig Llansannan) a Morfudd Williams (Henllan) yn yr Inffirmari, a Gwenfyl Williams (Eglwys Unedig Llansannan) yn Ysbyty Rhuthun. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt oll ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliad.

Help plis!

Tybed oes rhai ohonoch allai helpu'n achlysurol hefo'r **gwaith plant a/neu ieuenctid**, os gwelwch yn dda? Os yw hynny'n bosibl, a wnewch chi gysylltu hefo Gwion Dafydd (01745 582644/07849 591163) mor fuan â phosibl? Mi fyddai unrhyw help yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Derbyn yn Aelodau

Mae'r sesiynau ar fin dechrau ar gyfer gweddill yr ieuenctid 15+ sydd wedi dangos diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes unrhyw un arall â diddordeb, cysylltwch â Rhodri, Gwion neu Mair **erbyn dydd Sul, Hydref 2il**, os gwelwch yn dda. BYDD Y CYFARFOD CYNTAF AR HYDREF 6ED.

I ddod

- **CYFARFOD BLAENORIAID A DIACONIAID BRO ALED** nos Fawrth, Medi 27ain yn Llansannan am 7.30.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** nos Fercher, Medi 28ain yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Helen Wyn Jones.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** nos Iau, Medi 29ain yng Nghapel Llanefydd. Croeso cynnes i rai newydd i ymuno â ni.
- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod nos Iau, Medi 29ain am 7.00 yng Nghapel Ebeneser, Graigfechan. Bydd Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Mr D. Glyn Williams, Llandudno yno'n annerch. Yn dilyn hynny trafodir y materion sy'n ymwneud â'r Cwrdd Chwarter.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Medi 2016

Darlleniad y Dydd

Genesis 50:15-21
(BCND tud.49 / BCN tud.44)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bob un ohonoch i'r oedfaon ar draws Bro Aled heddiw. Ar ôl cyfnod o oedfaon arbennig, byddwn yn cael y fraint o ddychwelyd at ein heglwys lleol ac oedfa'r fro heno i geisio bendith yr Arglwydd gyda'n gilydd wrth ddod i'w addoli a gwrando ar ei Air.

Mae heddiw hefyd yn gyfle i mi ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch dymuniadau da wrth i minnau, Gwenno a Llio ddychwelyd o Lundain a chychwyn setlo'n ôl yn eich plith. Bu'n flwyddyn eithriadol o fendithiol i ni fel teulu yng Ngholeg Oak Hill, ac rydym yn edrych ymlaen at gael bod yn rhan o'r tîm yma wrth i ni weddio am eneniad yr Ysbryd ar ein holl weithgaredd gyda'r bwriad o roi clod i Iesu Grist ein Harglwydd.

Ar y cyfan, nid yw ansicrwydd yn beth i'w groesawu. Bydd y cyfryngau yn aml yn rhybuddio am y niwed economaidd sy'n dod oherwydd ansicrwydd gwleidyddol wedi'r bleidlais ar yr Undeb Ewropeaidd. Ac yn ein bywydau ninnau hefyd, prin yw'r rhai sy'n mwynhau peidio gwybod beth fydd yn digwydd nesaf mewn ysgol, swydd newydd neu wrth dderbyn newyddion am gyflwr ein hiechyd. Gallwn bendroni am ddyddiau tybed beth all ddigwydd, a phryderu ddydd a nos am bob math o bosibiliadau gwahanol. Mae geiriau ein darlleniad o lyfr Genesis yn rhai cyfarwydd ac yn gysur i bob Cristion sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r sefyllfaoedd a'r profiadau anodd sy'n siŵr o ddod i'n rhan. Pam mae hyn wedi digwydd i mi? Lle mae Duw yn hyn i gyd? Maent yn gwestiynau cyfarwydd sydd wedi cael eu gofyn gan y saint o oes i oes, ac yn aml, nid yw Duw yn rhoi ateb clir i ni. Ond mae'r Arglwydd yn caniatáu i ni dderbyn cysur o'r ffaith nad oes unrhyw beth yn sioc iddo Ef, a bod hyd yn oed y sefyllfaoedd mwyaf argyfyngus yn gallu bod yn fodd i'r Arglwydd achub a dangos ei gariad tuag at ei bobl.

Siawns nad oedd hyd yn oed yr optimist pennaf yn darogan diwedd llon i stori Joseff ac yntau yn y pydew, ond roedd yr Arglwydd Dduw yn teyrnasu. Meddai Joseff wrth ei frodyr, "Yr oeddech chwi yn bwriadu drwg yn f'erbyn; ond trodd Duw y bwriad yn ddaioni, er mwyn gwneud yr hyn a welir heddiw, cadw'n fyw llawer o bobl." (Genesis 50:20) I ni yng nghanol ein cwestiynau a'n pryderon, gallwn droi at Iesu yn gwybod fod ei farwolaeth ef yn dangos gwirionedd geiriau Joseff i'r dim. Cofiwn fod bywyd i'w gael yn Iesu Grist serch y drygioni a wnaed yn ei erbyn ef, ac sy'n parhau i'n heffeithio ni yn y byd heddiw. Ym mhob cyfnod, dylem atgoffa ein gilydd: 'Yr Arglwydd sy'n teyrnasu.' (Salm 99:1).

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 18: 35-43 (BCND tud.89 / BCN tud.81)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 18^{fed}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 20^{fed}
- Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau – 22^{ain}
- Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Sadwrn – 24^{ain}
- Dathliad Beibl Byw** i bobl o bob oed, i blant ac ieuenctid yng Ngholeg y Bala a Chapel Tegid. Mae croeso i bawb yn rhad ac am ddim. Bydd diodydd cynnes ond dewch â phegyn bwyd. I archebu lle neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Choleg y Bala ar (01678) 520565 neu ebostiwrch colegybala@ebcpcw.org.uk
- Sul nesaf – 25^{ain}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 18^{fed} Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog **am 10.00** (SYLWCH AR YR AMSER). Byddwn yn mynd ymlaen wedyn i Eglwys Sinan am 11.00 i Wasanaeth Diolchgarwch a chinio ysgafn i ddilyn. Enwau i Haf erbyn nos Sul (18^{fed}) plis. Yn ystod y gwsanaeth, bydd Huw Tan y Graig yn rhannu ei brofiad fel amaethwr. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 18^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 18^{fed} Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.


Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 18^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Henllan a Groes

- Sul yma – 18^{fed} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Mrs Sarah Dafydd yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bwriedir ail-gychwyn yr Ysgol Sul i'r plant yn Groes y Sul yma – croeso i fwy o blant i ymuno. Cynhelir **Ysgol Sul i'r plant** a'r oedolion yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.



Detholiadau

Os hoffech gael copi o
Raglen Cymanfaoedd Canu 2016-2017
(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),
rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul
ERBYN DYDD SUL, MEDI 25^{ain}
os gwelwch yn dda. Pris: £1.40
(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r
wythnos ganlynol, os gwelwch yn dda?)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.